



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl:	Prif Swyddog Cyfathrebu
Cyfeirnod Swydd:	00779
Math o contract/Oriau/CALI:	Rhan Amser (0.6 CALI), Parhaol
Graddfa/ Cyflog:	Gradd 6 / £29,799 - £33,518 pro rata y flwyddyn
Lleoliad:	Caerfyrddin (Ystyrir lleoli gydag un o'r darparwyr Dysgu Cymraeg ar draws Cymru os yn briodol)
Yn adrodd wrth:	Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu

Iaith weinyddol y cwmni yw Cymraeg ond croesewir ceisiadau gan ddysgwyr sydd â lefel iaith fel y nodir yn y gofynion hanfodol/dymunol.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Yn dilyn proses gystadleuol, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gytundeb i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ymgymryd â rôl Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Gorffennaf 2022. Mae'r Ganolfan yn gwbl weithredol ers 1 Awst 2016.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gyfrifol am gynllunio a monitro pob agwedd ar y maes Dysgu Cymraeg i Oedolion – o'r cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer tiwtoriaid, i ymchwil, marchnata, cyfathrebu ac e-ddysgu.

Nod y Ganolfan Genedlaethol yw denu dysgwyr newydd at y Gymraeg a chynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r iaith bob dydd. Bydd yn adeiladu ar gryfderau'r maes, gan godi safonau drwyddi draw.

Corff cenedlaethol, annibynnol yw'r Ganolfan Genedlaethol a chanddo fframwaith staffio sydd yn cynnig arweiniad i ddarparwyr ac i fudd-ddeiliad y maes.

Mae Prif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr yn ffurfio'r uwch dîm rheoli. Mae strwythur y Ganolfan Genedlaethol wedi ei rannu i dair cyfarwyddiaeth, sydd â rolau gweithredol er mwyn arwain adrannau sydd yn gyrru'r weledigaeth genedlaethol, sef:

- Cyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu
- Cyfarwyddiaeth Strategol
- Cyfarwyddiaeth Systemau

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Gweithio o fewn tîm Marchnata a Chyfathrebu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i hyrwyddo a sicrhau defnydd cyson o'r brand.
- Sicrhau cywirdeb a phriodoldeb gwybodaeth a gyhoeddir am y Ganolfan Genedlaethol a'i gwasanaethau, yn fewnol ac yn allanol.
- Dyfeisio a chydlynu ymgyrchoedd print a digidol ar y cyd â darparwyr ac asiantaethau allanol, gan fonitro a gwerthuso eu heffaith yn erbyn gwahanol nodau.
- Comisiynu a chydlynu dosbarthu deunyddiau hyrwyddo, gan gydweithio gyda dylunwyr a chwmnïau cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo.
- Datblygu a gweithredu dulliau effeithiol o gyfathrebu'n rheolaidd gyda dysgwyr, rhanddeiliad a darparwyr.
- Darparu cyngor i'r darparwyr ar y ffyrdd gorau o gyfathrebu'n effeithiol gyda'u cynulleidfaoedd targed.

- Ysgrifennu copi cryno, cywir a gafaelgar yn y Gymraeg a'r Saesneg megis datganiadau i'r wasg, areithiau, cyfweiliadau ayb.
- Cyfrannu at Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol a chydlynu a gweithredu'r gwaith rhwydweithiau cymdeithasol er mwyn cefnogi ac arwain y gwaith hyrwyddo; monitro a gwerthuso eu heffaith.
- Meithrin a chynnal rhwydwaith o gysylltiadau yn y wasg a'r cyfryngau ledled Cymru a thu hwnt ac adnabod a gweithredu cyfleoedd golygyddol.
- Sicrhau bod gwaith y Gyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu yn cyfrannu yn benodol tuag at nod y Ganolfan Genedlaethol o gynyddu nifer y dysgwyr a defnydd y Gymraeg pob dydd.
- Cyfrannu at ddatblygiad a thwf Safle Rhyngweithiol y Ganolfan Genedlaethol: ysgrifennu, diweddarau, golygu a phrawf ddarllen testun dwyieithog; creu a chomisiynu cynnwys megis delweddu/fideos/podlediadau; monitro trwy ddefnyddio'r system google analytics a mireinio a gwella yn ôl y galw.
- Rhoi cefnogaeth i gydweithwyr mewn perthynas â'r cyfryngau digidol, rheoli enw da a chyfathrebu â rhanddeiliaid.
- Cydlynu/rheoli ymwneud y darparwyr â'r Safle Rhyngweithiol (e.e. bwydo gwybodaeth i'r calendr digwyddiadau/darparu manylion am gyrsiau ayb).
- Trefnu presenoledeb a chynrychioli'r Ganolfan Genedlaethol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau amrywiol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gydnaws ac yn gymesur â'r swydd yn unol â dymuniad y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyflawni pob cyfrifoldeb perthnasol o ran lechyd a Diogelwch.
- Glynu wrth holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol.
- Bod yn barod i addasu i newid a meddu ar y gallu i ennill sgiliau a gwybodaeth newydd a pherthnasol trwy gymryd cyfrifoldeb priodol am eich datblygiad personol a phroffesiynol eich hun.
- Cefnogi a hyrwyddo ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd a chyflawni dyletswyddau mewn modd moesegol a chyfrifol.
- Gweithredu'n unol â'r safonau a ymgorfforir yn y Safonau Iaith Gymraeg a bennwyd ar gyfer y Brifysgol.

D.S. Hwn yw'r disgrifiad swydd sy'n gymwys ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y neilltuir dyletswyddau o bryd i'w gilydd sy'n briodol i'r raddfa a'r swydd nad ydynt o natur sylweddol barhaus i effeithio ar raddfa'r swydd.

MANYLEB YR UNIGOLYN		
	Hanfodol	Dymunol
Addysg a Chymwysterau	a) Gradd mewn disgyblaeth berthnasol (neu'r profiad proffesiynol cyfwerth)	b) Cymhwyster penodol mewn marchnata, cyfathrebu a/neu gysylltiadau cyhoeddu
Profiad, Galluedd a Sgiliau	c) Profiad o weithio ym maes marchnata, cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus neu newyddiaduraeth d) Profiad o gynllunio a gweithredu strategaeth cyfryngau digidol e) Profiad o adnabod a defnyddio storïau gwerth eu cofnodi f) Profiad o ysgrifennu deunydd cymhellol yn y Gymraeg a'r Saesneg g) Profiad o weithio'n effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill h) Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg – ar lafar ac yn ysgrifenedig i) Y gallu i gyflawni gwaith yn erbyn terfynau amser tynn j) Y gallu i ddarparu arweiniad a chynghor o fewn y maes arbenigol k) Meddu ar sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu lefel uchel gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel l) Meddu ar sgiliau TG o lefel uchel er mwyn mynd i'r afael â'r cyfryngau newydd m) Y gallu i ffurfio a chynnal rhwydweithiau o gysylltiadau n) Meddu ar sgiliau trefnu effeithiol ac effeithlon o) Meddu ar sgiliau cyflwyno effeithiol	p) Profiad o reoli adnoddau (pobl a/neu gyllid) a gweithio o fewn terfynau amser tynn q) Profiad o ddarparu hyfforddiant a/neu gefnogaeth o fewn y maes marchnata a chyfathrebu r) Profiad o faes Dysgu Cymraeg neu addysg Uwch/Bellach s) Profiad o gyfathrebu'n effeithiol gyda'r wasg a'r cyfryngau
Gofynion eraill	t) Barod i deithio i fodloni gofynion sy'n ymwneud â'r swydd ac i weithio o amrywiol leoliadau pan fo angen u) Gallu gweithio'n hyblyg ac yn barod i wneud hynny, gan gynnwys ambell dro gyda'r hwyr ac ar benwythnosau	

Er eich lles eich hun, dylech nodi'n fanwl yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir. Fe'ch anogir i ddarparu enghreifftiau perthnasol a phenodol, (o'r gweithle, gwaith gwirfoddol neu waith yn y gymuned, neu unrhyw sefyllfa briodol arall) fel y gall y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer weld yn glir ble mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.